

## **Cyngor Cymuned Llanelian (285)**

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Mawrth14 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn.

**Presennol:** Dafydd Griffiths, Hefina Williams Thomas Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes, Glenys Jones, Helen Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, David Gerrard, Cyng Wil Hughes, Cyng Aled Jones Cyng Richard Jones

**Ymddiheuriadau:** Carli Evans Thau (Clerc)

- 1 Croeso**  
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.
- 2 Datgan Diddordeb**  
Cyng Richard Jones – Materion Cynllunio  
Cyng Wil Hughes – Materion Cynllunio
- 3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**  
Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Helen Hughes, eilio Thomas Jones.
- 4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**
  - 4.1 Materion Prifffyrdd**  
Yn dilyn y cyfarfod diwethaf mae swyddogion y Cyngor sir wedi cwrdd ger yr ysgol i drafod ymhellach y posibilrwydd o gael arwydd 20mya. Nid oedd gan Cyng Wil Hughes ddiweddariad pellach. Nododd David Gerrard ei fod wedi tynnu lluniau cerbydau yn parcio ar y palmant adeg nol plant o'r ysgol a'i fod wedi eu hafnon ymlaen at sylw'r clerc.
  - 4.2 Enwau Tai**  
Roedd cadarnhad bod y clerc wedi bod mewn cysylltiad a Paul Roberts i geisio trefnu cyfarfod anffurfiol. Nid oes dyddiad wedi ei gytuno hyd yma.
  - 4.3 Rhos Newydd**  
Daw cadarnhad gan CSYM nad oes pebderfynniad wedi ei wneud eto ond bod arolygwyr wedi ymweld a'r safle.
  - 4.4 Cerbydau Pengorffwysfa**  
Mae adran dai CSYM yn ymchwilio i'r mater ac wedi ymweld a'r safle. Byddent yn monitro'r sefyllfa.
  - 4.5 Golau'r Neuadd**  
Nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau fyth. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a'r trydanwr eto.
  - 4.6 Cytundeb Clerc**  
Rhoddwyd yr hawl i weithredu i Dafydd Griffiths, Hefina Williams ac Elfyn Hughes er mwyn ffurfio a chwblhau cytundeb wedi ei selio ar fodel Un Llais Cymru. Bydd cyfarfod yr is-bwyllgor yma 29/3/2017 i gwblhau'r gwaith.
  - 4.7 Hysbysfwrdd**  
Derbyniwyd pris Mon CF (£656.40) am hysbysfwrdd coed caled i'w osod ar dalcen y siop.
  - 4.8 Swyddfa Bost**  
Nodwyd bod swyddogion y Swyddfa Bost wedi ymweld a'r pentref a chafwyd diweddariad o'r cyfarfod hwnw gan Cyng Aled Jones. Mae'r mater yn nwylo'r Swyddfa Bost.

#### **4.9 Meinciau**

Nodwyd bod y clerc wedi cael golwg ar y meinciau ac nad oedd llawer o waith angen ei wneud arnynt. Bydd Thomas Jones, John Griffiths a Dafydd Griffiths yn asesu'r gwaith yn fwy manwl.

#### **4.10 Parcio ar y glaswellt ar y gyffordd a'r A5025**

Nid oes gan yr adran briffyrdd unrhyw bwerau i arbed pobl rhag parcio yma ond mae'r mater wedi di basio ymlaen i'r adran safonau masnach. Fe ofynnwyd yr aelodau tybed fyddai posib i'r CSYM osod bolards i atal pobl rhag fedru gyrru eu ceir ar y glaswellt, a hefyd rhoi arwydd yno i i roi stop ar y hysbysebu.

### **5 Cronfa Ty Moel Isaf**

Cadarnhawyd bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Dr Rob Owen o Gronfa Padrig (Llanbadrig) ynglyn a sut oedd y gronfa wedi ei sefydlu. Diolchwyd i Dr Owen am ei amser a chadarnhawyd bydd angen trafodaeth pellach.

Mae Cyfrif newydd gyda Swansea Building Society wedi ei agor bellach a chadarnhawyd byddai gofyn i'r cyfreithiwr dalu'r taliad cyntaf i'r cyfrif hwnw.

### **6 Cynllunio**

#### **6.1 Ceisiadau – roedd tri cais i'w ystyried**

- Wenllys, Lon Gadfa (24C289A) – dim gwrthwynebiad
- Cae Hen, Llanelian (24C285A) – cefnogi ar yr amod bod yr hen enw yn cael ei gadw
- Clustach, Llanelian (24C343) – dim gwrthwynebiad

#### **6.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:**

- Dim wedi'w cyflwyno

### **7 Materion Ariannol**

#### **7.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:  
£257.72 Cyflog Chwefror

#### **7.2 Ceisiadau am Arian**

Daw tri cais am gymorth:

- Eglwys Llanwenllwyfo – trafod eto yn y flwyddyn ariannol newydd
- Ffermwyr Ifanc Cymru – peidio cefnogi, mudiad cenedlaethol - tu allan i'r ardal
- Ambiwllans Awyr Cymru – pridio cefnogi, mudiad cenedlaethol - tu allan i'r ardal

Daw llythyr o ddiolch gan Gylch Meithrin Penysarn yn dilyn derbyn cyfraniad ariannol mis diwethaf.

### **8 Etholiad**

Dosbarthwyd y ffurflenni priodol i'r aelodau gan nodi eu bod angen eu dychwelyd i Langefni erbyn Ebrill 4ydd. Cytuno dychwelyd y ffurflenni i'r clerc cyn gynted a phosib fel bod posib eu gwirio cyn eu cyflwyno. Cadarnhawyd bod copi o'r rhestr etholaeth gan y clerc i wirio rhifau cofrestru.

### **9 Gohebiaeth**

#### **9.1 Daw llythyr gan CSYM yn cadarnhau eu bod yn cau'r lon ger Tyddyn Mawr am un diwrnod i drin y lon (14/3/2017)**

#### **9.2 Daw llythyr ynglyn ag ymgynghoriad ar ddyfodol llyfrgelloedd Mon gan nodi er bod posib edrych ar y dogfennau rwan, ni fydd ymgynghoriad swyddogol nes wedi'r etholiad.**

- 9.3 Grid Cenedlaethol – daw ymateb i'r sylwadau a gyflwynwyd gan y Cyngor Cymuned fel rhan o'r ymgynghoriad diweddaraf.
- 9.4 Asesiad Llesiant Mon (Deddf Llesiant) – mae ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae angen ymateb erbyn Ebrill 13 os am wneud hynnu. Gall unrhyw un lenwi'r holiadur ar lein drwy ymweld ag llesiantgwyneddamon.org
- 9.5 Arbrawf Gorfodaeth – gwybodaeth am Gynllun arfaethiedig gan CSYM i roi dirwy sefydlog o £75 ar gyfer troseddau sbwriel a baw cwn. Roedd yr aelodau yn gefnogol o'r syniad. Awgrymwyd bod y cynllun hefyd yn cynnwys bagiau plasig silwair.
- 9.6 Panel Dyfarnu – cafwyd grynodedb gan CSYM o adroddiad diweddaraf Panel Dyfarnu Cymru. Cadarnhawyd bod yr ebost wedi ei hafnion ymlaen i'r aelodau.
- 9.7 Caniatad Arbennig – daw nodyn briffio gan CSYM yn egluro pa bryd a pham dylid wneud cais i'r Pwyllgor Safonau am ganiatad arbennig i gael trafod materion penodol pan fydd aelod wedi datghan diddordeb yn y mater.

## **10 Unrhyw Fater Arall**

- 10.1 Cae Chwarae Lon Tyddyn Waen – mae rhannau o'r offer chwarae coed angen sylw – mae darn wedi pydru (yn y ddaear) ac wedi torri dros yr wythnos diwethaf. Mae Gordon Hayes wedi symud y darn i'r storfa er diogelwch. Cytuno bydd y pwyllgor cae chwarae yn cwrdd nos Fawrth 21/3/2017 yn y ce chwarae i drafod ymhellach.
- 10.2 Baw Cwn – daw cwynion am faw cwn ar y Ffordd Osgoi, Lon Tyddyn Waen a Lon yr Ysgol. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a CSYM eto.
- 10.3 Llinellau Melyn – nodwyd nad oedd y llinellau melyn dwbwl wedi eu hail paentio gyferbyn a'r Swyddfa bost wedi i'r lon gael ei drin. Cyng Aled Jones am gysylltu a'r ardan briffyrdd i godi ymwybyddiaeth.
- 10.4 Fferm Arae Haul – bydd cyfarfod cyhoeddus yng Nghemaes 16/3/2017 i drafod y prosiect. Mae cynghorau tref a chymuned yr ardal wedi gwrthwynebu'r cais.

## **11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Ebrill 11, 2017

Bu'r cyfarfod orffen am 8 o'r gloch

**Arwyddwyd**  
**Dafydd Griffiths**  
**Cadeirydd**